Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD GWENER, 28 AWST 2015**

**AT: HOLL AELODAU'R CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU** A GYNHELIR YN **YSTAFELL BWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN** AM **2.00 PM, DYDD LLUN, 7FED MEDI, 2015** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **(01267) 224059** |
| **Ffacs:** | **(01267) 224911** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL. | |
| 2. | CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 23AIN GORFFENNAF, 2015. | 1 - 4 |
| 3. | CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIADAU PENDERFYNIAD Y CYFARFODYDD A GYNHALIWYD AR 29AIN MEHEFIN, 2015 A'R 23AIN GORFFENNAF, 2015. | 5 - 8 |
| 4. | WEDI YSTYRIED HOLL AMGYLCHIADAU'R ACHOS AC WEDI CYNNAL PRAWF BUDD Y CYHOEDD GALL YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL FARNU NAD YW'R EITEMAU GANLYNOL I'W CHYHOEDDI AM EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINNIR YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, FEL Y'I NEWIDIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. | |
| 5. | DILEU DYLEDION CYN-DENANTIAID | 9 - 18 |

# COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU

## 23AIN GORFFENNAF 2015

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**1.00pm – 2.00pm**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| **Y Cynghorydd D.M. Jenkins** | **Adnoddau** |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **Mr J. Gravelle** | **Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw** |
| **Mr K. Thomas** | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd** |

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

| |
|---|
| Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol. |

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| 2. | **COFNOD PENDERFYNIADAU – YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU - 28AIN EBRILL A 7FED MAI 2015**<br><br>**PENDERFYNWYD derbyn Cofnodion Penderfyniadau cyfarfodydd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau oedd wedi eu cynnal ar 28ain Ebrill ac 7fed Mai, 2015.** |
| 3. | **ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**<br><br>**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.** |

**COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU**

**23AIN GORFFENNAF 2015**

| | |
|---|---|
| **4.** | **ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD YN ÔL DISGRESIWN**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br><br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am hanes ariannol diweddar trethdalwyr unigol a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried cais am Ryddhad Caledi o dan ddarpariaethau Adran 49 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y'i diwygiwyd. |

| **Rhif yr Eitem.** | **Y Pwnc / Penderfyniad** |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD gwrthod caniatáu'r cais am beidio â thalu ardrethi oherwydd caledi mewn perthynas â Chyfeirnod Ardrethi 80020258.** |
| **5.** | **Y DRETH GYNGOR – GOSTYNGIADAU YN ÔL DISGRESIWN**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br><br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth oedd yn fodd i adnabod unigolion oedd yn agored i dalu'r Dreth Gyngor.**<br><br>**Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol nad oedd yn eiddo i'r cyhoedd ac na fyddai'n cael ei datgelu fel rheol i drydydd partïon. Felly, ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau a ddaethai i law am ostyngiadau yn ôl disgresiwn o ran y Dreth Gyngor. Nodwyd bod rheoliadau wedi eu cyflwyno ym mis Ebrill 2004 gan roi pwerau disgresiwn i awdurdodau |

| | |
|---|---|
| | lleol roi gostyngiadau neu leihad a benderfynwyd yn lleol, a bod y rhain yn ychwanegol at y gostyngiadau statudol presennol o ran y Dreth Gyngor.<br>**PENDERFYNWYD:-**<br>**5.1 Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, hepgor y Dreth Gyngor am y cyfnod rhwng 8fed Ionawr a 3ydd Ebrill 2015 mewn perthynas â Chyfeirnod 60204715.**<br>**5.2 Gohirio ystyried ceisiadau cyfeirnodau 60186927 a 60158589 er mwyn cael rhagor o wybodaeth.**<br>**5.3 Gwrthod y ceisiadau am ostyngiad yn ôl disgresiwn o ran y Dreth Gyngor mewn perthynas â chyfeirnodau 60236879, 50003613 a 60286174.** |

**COFNOD PENDERFYNIADAU CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU**

**23AIN GORFFENNAF 2015**

| Rhif yr Eitem. | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| | **5.4 Oherwydd yr amgylchiadau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, hepgor y Dreth Gyngor mewn perthynas â chais cyfeirnod 60239886 a hynny am flwyddyn ariannol 2014/15 ac am chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2015/16.** |
| 6. | **CYFRIFON ANADFERADWY**<br><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br><br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddyledion unigolion a/neu wybodaeth bersonol. Er y byddai datgelu'r adroddiad i'r cyhoedd yn hybu atebolrwydd o ran cyllid cyhoeddus, byddai hefyd yn datgelu gwybodaeth ariannol gyfrinachol. Felly, ar ôl cloriannu'r mater, yr oeddid yn barnu bod y budd i'r cyhoedd o ran cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth ar hyn o bryd.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar Gyfrifon Treth Gyngor a Gordaliadau Budd-dal Tai oedd wedi eu clustnodi'n rhai anadferadwy. Yr oedd yr holl weithdrefnau adennill, lle'r oedd hynny'n briodol, wedi cael eu defnyddio o ran yr achosion hyn, ac nid oedd dim tebygolrwydd y byddai'r symiau'n cael eu talu. Felly bernid ei bod yn briodol dileu'r cyfrifon hyn.<br><br>**PENDERFYNWYD bod y cyfrifon y manylwyd arnynt yn yr adroddiad yn cael eu dileu fel rhai anadferadwy** |

________________________________________

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU**

____________________

**Y DYDDIAD**

# COFNOD PENDERFYNIADAU CYD-GYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU A'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

## 29AIN MEHEFIN 2015

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**2.30pm – 3.00pm**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| **Y Cynghorydd L.D. Evans** | **Tai;** |
| **Y Cynghorydd D.M. Jenkins** | **Adnoddau;** |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **Mr. J. Fearn** | **Y Pennaeth Eiddo Corfforaethol;** |
| **Mr. J. Morgan** | **Rheolwr y Gwasanaethau Tai;** |
| **Mr. M.S. Davies** | **Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.** |

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

**Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.**

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| **2.** | **BRYNMEFYS, LLANELLI - Y DEWISIADAU O RAN DARPARU TAI FFORDDIADWY**<br>Bu'r Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau a Thai yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar 5 dewis, ynghyd â'u manteision / anfanteision, o ran darparu tai fforddiadwy ym Mrynmefys, Llanelli, ar sail y dybiaeth y byddai datblygwr yn codi 70 o dai ar y safle ac y byddai 20% [h.y. 14] ohonynt yn dai fforddiadwy. Ynghlwm wrth yr adroddiad yr oedd copi o'r Briff Cynllunio ar gyfer Brynmefys.<br>**PENDERFYNWYD marchnata safle Brynmefys ar sail dewisiadau 1, 4 a 5 o ran darparu tai fforddiadwy a bod adroddiad arall yn cael ei gyflwyno maes o law.** |

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

**COFNOD PENDERFYNIADAU CYD-GYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADNODDAU A'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI**

**23AIN GORFFENNAF 2015**

**Ystafell Bwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin**

**2.00pm – 2.30pm**

| YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL | Y PORTFFOLIO |
|---|---|
| Y Cynghorydd L.D. Evans | Tai; |
| Y Cynghorydd D. M. Jenkins | Adnoddau; |

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| Mr. L. James | Rheolwr y Gwasanaethau Tai |
| Mr. J. Gravelle | Rheolwr y Gwasanaethau Refeniw |
| Mr. K. Thomas | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd. |

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

**Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.**

Ar ôl ystyried yr adroddiadau am yr eitemau isod a chan roi sylw i farn yr Aelodau Lleol a'r rhai oedd a wnelont â'r materion, lle'r oedd hynny'n berthnasol, gwnaeth yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y penderfyniadau canlynol:-

| Rhif yr Eitem | Y Pwnc / Penderfyniad |
|---|---|
| 2 | <u>**COFNOD PENDERFYNIADAU – 29ain MEHEFIN 2015**</u><br>**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 29ain Mehefin, 2015, gan ei fod yn gywir.** |
| 3 | <u>**ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**</u><br>**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 14 ac 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.** |
| 4. | <u>**TALIADAU PRYDLES, HEOL WALLASEY, RHYDAMAN**</u><br>**Ar ôl cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 3 uchod, na fyddid yn cyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu fusnes rhywun penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf), a gwybodaeth y gellid honni braint gyfreithiol broffesiynol mewn perthynas â hi mewn achosion llys cyfreithiol (Paragraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**<br>**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyfreithiol freintiedig a manylion prydleswyr yn Heol Wallasey. Felly byddai datgelu gwybodaeth mewn** |

| | |
|---|---|
| | **unrhyw fodd yn anfanteisiol i hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data ac i unrhyw gamau cyfreithiol y gallai'r Awdurdod eu cymryd neu y gallai fod yn rhaid iddo ei amddiffyn ei hun rhagddynt. Felly yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.**<br><br>Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai yn ystyried adroddiad oedd yn manylu ar 4 dewis o ran y taliadau i'w codi ar brydleswyr eiddo yn Heol Wallasey mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i'r eiddo gan yr Awdurdod.<br>**PENDERFYNWYD bod y Prydleswyr yn Heol Wallasey i dalu'r swm gwreiddiol fel y'i pennwyd yn yr Hysbysiad Amcangyfrifon.** |

______________________________

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS DAI

______________________________

Y DYDDIAD

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol